




Crynodeb Gweithredol o adroddiad Terfynol Mehefin 2017

Gwerthusiad o'r Cynllun Ymweld â Mam

Dr Alyson Rees, Dr Eleanor Staples a Dr Nina Maxwell



Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r cynllun Ymweld â Mam yng ngofal Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal y Carcharau (Pact), sef elusen genedlaethol sy'n darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i garcharorion a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys canolfannau ymwelwyr mewn carcharau, llinell gymorth genedlaethol, gwasanaethau cyfeillio a mentora, cyrsiau meithrin perthynas a magu plant, eiriolaeth a gwaith ymgyrchu (Pact, 2016). Mae'r elusen yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant a theuluoedd carcharorion yn cael mynediad i gefnogaeth sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion ac yn ymateb iddynt. Mae Ymweld â Mam ar waith yn y carchar i fenywod, HMP Eastwood Park yn swydd Gaerloyw, sef y carchar lleol ar gyfer troseddwy'r benyw yn hanner deheuol Cymru oherwydd nad oes carchar i fenywod yng Nghymru (mae troseddwy'r benyw yn hanner gogleddol Cymru yn cael eu hanfon i HMP Styal yn swydd Gaer). Ar gyfartaledd mae carcharorion sy'n fenywod yn cael eu cadw 60 milltir o'u

cyfeiriad cartref, ond yn Eastwood Park, mae 20% o'r menywod yn cael eu cadw dros 150 milltir o'u cartref (HMP/YOI Eastwood Park, 2011). Mae'r cynllun Ymweld â Mam yn gweithio gyda charcharorion benyw o Gymru, i hwyluso cyswllt rhyngddyn nhw a'u plant yn ystod eu cyfnod yn y carchar.

Yng Nghymru, er bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail ar gyfer llunio polisi ynghylch plant a phobl ifanc, nid oes strategaeth genedlaethol ar gyfer plant carcharorion, ac felly nid ydynt yn cael llawer o gefnogaeth. Ni chesglir unrhyw ddata fel mater o drefn gan Awdurdodau Lleol ynghylch plant carcharorion (yng Nghymru na Lloegr), sy'n golygu bod y grŵp bychan hwn o blant, sy'n agored i niwed, yn anhysbys. Nid yw cyfiawnder yn swyddogaeth a ddatganolwyd, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn dadgyfuno a chyhoeddi data ar garcharorion neu eu plant fel mater o drefn er mwyn medru amcangyfrif y boblogaeth hon.

Prosiect partneriaeth 3 blynedd a ariannwyd gan Gronfa Arloesedd y Loteri Fawr yw Ymweld â Mam, ac mae wedi bod ar waith ers mis Hydref 2014. Mae'n gweithredu drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd unigol yn y gymuned i baratoi gofalwyr a phlant i ymweld ag Eastwood Park a chludo plant a gofalwyr i'r carchar. Fe'i lluniwyd yn benodol i fynd i'r afael â'r materion hyn a chefnogi teuluoedd i gadw mewn cysylltiad (lle roedd gwneud hynny er lles pennaf y plentyn), dileu rhwystrau i gyswllt a chefnogi'r teulu cyfan drwy'r broses. Mae Ymweld â Mam yn brosiect unigryw sydd wedi'i gynllunio'n dda, ac ar hyn o bryd mae'n darparu cefnogaeth a manteision i blant sy'n byw mewn gwahanol rannau o dde Cymru pan fyddan nhw'n ymweld â'u mamau yn Eastwood Park.

Y corff gwirfoddoli Sova, elusen a sefydlwyd ers 40 mlynedd, ac sy'n gweithio 'i helpu pobl i osgoi troseddu a byw bywydau iachach' (Sova, 2012), sy'n recriwtio, yn hyfforddi ac yn cefnogi'r gwirfoddolwyr sy'n cynnal prosiect Ymweld â Mam. Mae'r gwirfoddolwyr yn cefnogi'r plant i baratoi ar gyfer yr ymweliadau trwy siarad am drefn y carchar, dangos lluniau o'r sefydliad, a gadael i'r plant wybod beth i'w ddisgwyl wrth gyrraedd. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn ateb cwestiynau er mwyn i'r plant fedru gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydyn nhw am fynd ar ymweliad a phryd, ac yn darparu cludiant ar gyfer yr ymweliad. Lle bo angen, mae gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth i'r gofalwr a'r plant ar ôl yr ymweliad, ac yn helpu i drefnu ymweliadau i'r dyfodol.

Nod y cynllun Ymweld â Mam yw lleihau aildroseddu, a lleihau'r trallod emosiynol a achosir i fenywod sydd wedi'u carcharu ymhell oddi wrth eu plant. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio lleihau effaith carchariad ar blant, ac mae'n gallu gwella iechyd meddwl y mamau a'u plant yn y tymor hwy. Mae'r berthynas rhwng iechyd meddwl a throseddu yn hysbys (Chitsabesan et al. 2006). Gall carcharu effeithio ar lesiant menywod a'u plant, a hefyd ar eu gallu i gadw cyflogaeth ac osgoi troseddu yn y dyfodol (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016). Mae'r gwerthusiad hwn o'r cynllun Ymweld â Mam yn edrych ar sut mae'n gweithredu, yn casglu profiadau'r rhai sy'n ymwneud ag e, yn asesu ei gryfderau a'i wendidau, ac yn penderfynu a ydyw wedi cyflawni'r amcanion a bennwyd gan Pact (isod).

Amcanion Prosiect Ymweld â Mam

Mae amcanion y cynllun Ymweld â Mam sydd ar waith yn HMP Eastwood Park fel a ganlyn:

1. Mae plant mamau o Gymru sydd wedi'u carcharu yn HMP Eastwood Park yn profi gwell iechyd corfforol a meddyliol drwy ymwneud â'r prosiect.
2. Ceir mwy o ddiogelwch cymunedol o ganlyniad i lai o droseddu gan famau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.
3. Mae mamau sydd wedi eu carcharu yn profi llai o bryder am faterion sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd, gan arwain at lai o achosion o hunan-niweidio.
4. Mae dysgu o'r prosiect yn arwain at wella polisi ac ymarfer ar lefel awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
5. Adolygiad o ansawdd, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd y cynllun.

Hyd yma, mae cynllun Ymweld â Mam wedi gweithio gyda 97 o famau (ni fu angen cefnogaeth gwirfoddolwr ar gyfer pob un o'r achosion hyn, gan fod rhai wedi cael cymorth gan y carchar yn unig) ac mae 292 o ymweliadau wedi cael eu cynnal. Mae cyfanswm o 164 o blant wedi defnyddio'r cynllun Ymweld â Mam er mwyn ymweld â'u mam yn y carchar.

Mae gwerthfawrogiad eang i'r cynllun, ac mae'r holl brif randdeiliaid yn gosod gwerth mawr arno, gan gynnwys staff yn y carchar. Mae'r plant yn elwa'n enfawr o'r cynllun, ac mae'n amlwg y dylai barhau i weithredu. Mae Ymweld â Mam bellach wedi'i wreiddio yn sefydliad y carchar, a gellir ei ystyried yn brosiect blaenllaw yn HMP Eastwood Park, fel y nodwyd yn yr arolygiad diweddar (Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi 2017).

Canfyddiadau

1. Mae'r cynllun Ymweld â Mam yn lleihau pryderon plant; mae'r rhan fwyaf o blant yn poeni am sut mae eu mam yn ymdopi.
2. Mae'r plant yn teimlo bod amgylchedd y carchar yn llai bygythiol, yn cael gwell cefnogaeth ac mae'r cynllun Ymweld â Mam yn gwella'r profiad o ymweld â'u mamau yn y carchar.
3. Mae ansawdd yr ymweliad cyntaf â'r carchar yn arwyddocaol i'r plentyn, oherwydd gall profiad cyntaf negyddol olygu nad yw'r plentyn am fynd ar ymweliadau dilynol.
4. Nid yw Ymweld â Mam bob amser yn llwyddo i ymyrryd a chael mynediad at y plentyn a'r teulu cyn yr ymweliad cyntaf
5. Mae plant yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth Ymweld â Mam yn aruthrol ac yn credu ei fod wedi helpu i ddiogelu, ac mewn rhai achosion wedi cryfhau eu perthynas â'u mam ac aelodau eraill o'r teulu.
6. Mae'r ymweliadau llai ffurfiol, am gyfnod hwy sy'n cael eu darparu gan y cynllun Ymweld â Mam yn hwyluso amgylchedd ansawdd uchel, mwy personol a meithringar ar gyfer mamau, plant a gofalwyr.
7. Nid yw'r plant yn derbyn fawr ddim cefnogaeth, os o gwbl, y tu allan i'r Cynllun Ymweld â Mam.
8. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'n fawr ac yn gwneud sylwadau ffafriol am sgiliau'r gwirfoddolwyr a staff Ymweld â Mam. Mae'r gwirfoddolwyr a'r staff yn darparu haen bosibl o gefnogaeth ar gyfer y plentyn.
9. Mae cysondeb y gwirfoddolwr yn bwysig i'r plant a'r gofalwyr.

10. Yn gyffredinol, mae'r plant yn mwynhau cwrdd â phobl ifanc eraill sydd mewn amgylchiadau tebyg.
11. Dylid ystyried y cyswllt fel un o hawliau'r plentyn, nid fel gwobr i'r fam.
12. Mae menywod yn gwerthfawrogi'r cynllun Ymweld â Mam yn fawr ac yn gwneud sylwadau ffafriol am ymrwymiad a sgiliau'r staff; mae'r prosiect yn gwneud rhywfaint i ymdrin â bwlch lles yn y carchar a'i bontio.
13. Mae menywod yn teimlo'n llai pryderus ynghylch lles eu plant ac mae'r rhan fwyaf yn cael o leiaf ymweliad misol a chyswllt rheolaidd dros y ffôn.
14. Mae menywod yn teimlo bod eu hiechyd meddwl yn gwella drwy ddefnyddio'r gwasanaethau Ymweld â Mam.
15. Mae hunan-niweidio a dyfarniadau'n lleihau yn achos y rhai sy'n defnyddio Ymweld â Mam.
16. Mae'r rhan fwyaf o famau yn cynnal peth o'u rôl rianta o'r carchar - gwelir bod hyn o gymorth er mwyn ail-integreiddio'r teulu.
17. Mae menywod yn teimlo y bydd y cynllun yn eu helpu i ail-integreiddio â bywyd y teulu a'r gymuned adeg eu rhyddhau.
18. Mae menywod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan Ymweld â Mam yn y carchar, ond mae'r gwasanaethau ar ôl eu rhyddhau yn fach iawn, yn enwedig o ran cymorth gyda thai a chyflogaeth.
19. Mae'r gwirfoddolwr yn cael derbyniad da ac yn fodel rôl da ar gyfer y mamau a'r plant.
20. Hoffai'r mwyafrif o'r gwirfoddolwyr ymwneud â mwy o gefnogaeth ddi-fwlch a gwasanaethau ôl-ryddhau.
21. Mae gofawyr y plant yn credu bod y cynllun Ymweld â Mam yn helpu i leddfu'r pwysau emosiynol ac ariannol sydd arnynt, lle nad oes fawr ddim cymorth arall ar gael.
22. Mae staff y carchar yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth Ymweld â Mam ac yn teimlo ei fod wedi'i wreiddio yn sefydliad y carchar.
23. Ym mhob achos mae'r ysgolion wedi bod yn barod i gynorthwyo trwy roi caniatâd i blant ymweld â'u mamau.
24. Nid oes fawr ddim gwybodaeth am y cynllun ar draws y sbectrwm gofal cymdeithasol.

Manteision pellach i'r gwaith yw bod y prosiect wedi llunio a dosbarthu pecynnau adnoddau ar gyfer ysgolion a gweithwyr cymdeithasol, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar becyn hyfforddi, sy'n cynnwys ffilm newydd, a fydd yn cael ei gwblhau a'i lansio cyn diwedd y prosiect ym mis Medi 2017. Bydd yr adnoddau hyn ar gael i awdurdodau lleol. Ymddengys bod y cynllun Ymweld â Mam yn rhaglen arloesol, bellgyrhaeddol, sy'n gwella llesiant mamau a'u plant; ar hyn o bryd mae'n cael ei ariannu am £168, 216 y flwyddyn.

Argymhellion

1. Mae paratoi a chefnogi ymweliadau cyntaf plant a gofawyr yn hanfodol bwysig, a byddai adolygu sut gall gwirfoddolwyr ymwneud â'r cynllun yn gynt o gymorth. Gellid gwneud hyn drwy rota ddyletswydd lle mae gwirfoddolwr wrth gefn am y dydd, a thrwy ddefnyddio gweithwyr Ymweld â Mam mwy penodol yn y carchar i gasglu atgyfeiriadau.

2. Gallai datblygu ffilm sy'n arwain y plentyn drwy'r ymweliad â'r carchar i gyd-fynd â'r llyfryn Ymweld â Mam fod o gymorth i'r gofalwr a'r plentyn lle na fu modd trefnu ymweliad cyntaf gyda gwirfoddolwr.
3. Oherwydd nad yw'r plant yn derbyn fawr ddim cefnogaeth, os o gwbl, tra bod eu mam yn y carchar, dylid ystyried darparu cyfarfodydd cefnogaeth grŵp cyfoedion, i'w cynnal y tu allan i'r carchar, os yw'r plentyn a'r teulu'n teimlo bod hynny'n briodol.
4. Gellid teilwra'r rhaglen baratoi a hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr yn fwy penodol ar gyfer y cynllun Ymweld â Mam, gan ymdrin ag ymlyniad, datblygiad plentyn ac effaith gwahanu, gyda rhaglen hyfforddiant parhaus i ddilyn (yn trafod caethiwed i wahanol bethau, cam-drin domestig a iechyd meddwl) er mwyn helpu i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn dal yn gysylltiedig â'r cynllun ac i estyn eu rôl.
5. Byddai o gymorth i'r staff yn y carchar petai'r cydlynnydd gwirfoddolwyr hefyd wedi'i leoli yn y carchar, a byddai hynny'n golygu bod y cydlynnydd yn dod i ddeall anghenion y menywod unigol.
6. Gallai staff Ymweld â Mam o fewn y carchar elwa o hyfforddiant penodol ar gyfraith plant a goruchwyliaeth glinigol, o ystyried cymhlethdod yr achosion sy'n rhan o'u gwaith.
7. Gellid gwneud mwy o ddefnydd o wirfoddolwyr (o bosibl drwy Sefydliad y Merched) o fewn y carchar ar gyfer y CDs llyfr stori (sy'n cymryd llawer o amser) ac i ddarparu bwyd, fel bod amser staff medrus yn cael ei ddiogelu.
8. Gellid rhoi mwy o ystyriaeth i fwyd yn gyffredinol a phwysigrwydd hynny fel rhan o'r ymweliad Ymweld â Mam.
9. Gellid datblygu mwy o weithgareddau i ennyn diddordeb plant hŷn, e.e. cwisiau a gêmau.
10. Gellid adolygu amseriad yr ymweliadau Ymweld â Mam o ran cychwyn yn gynnar iawn, neu'n wir yn achos pobl ifanc sy'n astudio ar gyfer arholiadau, fel nad ydynt yn colli amser yn yr ysgol.
11. Gallai Ymweld â Mam ymwneud â mwy o gefnogaeth ddi-fwlch ar gyfer y rhai fyddai'n hoffi cael hynny, ac yn arbennig â chefnogaeth ôl-ryddhau (o leiaf am gyfnod pontio byr) i'r rhai sydd ei hangen, gan dynnu ar arbenigedd Sova a PACT yn y maes hwn; byddai ffocws ar gyflogaeth a thai o gymorth.
12. Mae'n bwysig sicrhau mwy o ledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol ynghylch y gwasanaeth mae Ymweld â Mam yn ei ddarparu. Gallai hyn olygu gwahodd gweithwyr cymdeithasol i mewn i'r carchar neu fynd allan i'r timau awdurdod lleol. Mae'r cynadleddau blynyddol a gynhelir yn ddefnyddiol, a gallai cynhadledd benodol ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol plant fod yn fodd i ledaenu gwybodaeth am y cynllun.
13. Archwilio sut gallai Ymweld â Mam chwarae rôl fwy pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn gysylltiedig â theuluoedd.

14. Gallai fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r tîm petai gweithiwr cymdeithasol cyswllt yn gweithio'n rhannol o'r carchar er mwyn adeiladu pontydd ar draws gwasanaethau a chynnig cefnogaeth well i'r menywod a'r plant. Fel arall, byddai cyswllt gweithiwr cymdeithasol dynodedig ar gyfer pob awdurdod lleol yn ne Cymru yn hwyluso'r cyfathrebu rhwng Ymweld â Mam a gweithwyr cymdeithasol.
15. Archwilio a ellid defnyddio'r Uned Mamau a Babanod (pan nad yw'n llawn) ar gyfer yr ymweliadau Ymweld â Mam. Byddai hyn yn darparu lle mwy preifat, lle na fyddai neb yn torri ar draws.
16. Hoffai gwirfoddolwyr ymwneud â threfnu'r ymweliadau, a fyddai'n cynyddu'r cysylltiad, a allai helpu i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas agos gyda'r gofalwyr, ac a fyddai'n ysgafnhau llwyth gwaith y staff.
17. Gallai Ymweld â Mam gael ei efelychu ar draws carchar Eastwood Park.